SNN

# Cais am Enwi a Rhifo Strydoedd

## Cyngor Sir Ceredigion

### Cofrestru plot newydd – sengl a fflatiau

I ddechrau'r broses, dylai perchnogion eiddo anfon eu ceisiadau at y Swyddog Enwi a Rhifo Strydoedd a chynnwys cynllun o'r lleoliad sy'n dangos yr eiddo newydd yn glir neu, fel arall, rif Cais Cynllunio i'n helpu i ddod o hyd i gynlluniau a gyflwynwyd eisoes.

Bydd y swyddog yn edrych yn Rhestr Tir ac Eiddo'r awdurdod i wneud yn siŵr nad oes unrhyw wrthdaro neu ddyblygu yn yr ardal leol o ran yr enw a gynigir. Os oes gwrthdaro, gofynnir i'r datblygwr/perchennog am gynigion eraill. Os nad oes gwrthdaro, bydd yr enw newydd yn cael ei gymeradwyo a'i ychwanegu at y Rhestr o Dir ac Eiddo, cyn ei ddosbarthu ymhlith adrannau mewnol eraill y Cyngor a chyrff allanol megis y Post Brenhinol. Pan fydd y Post Brenhinol yn pennu cod post newydd ar gyfer yr annedd, bydd y Swyddog Rheoli Enwi a Rhifo Strydoedd rhoi gwybod i'r datblygwr/meddiannydd yn unol â hynny.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cofrestru plot sengl** | £101.00 | **Cofrestru plot sengl â fflatiau** | £101.00 a £16.00 am bob fflat |

Mae'n bwysig sefydlu cyfeiriad cymeradwy ar gyfer cartrefi newydd eu hadeiladu cyn gynted â phosibl, a hynny yn ystod y cyfnod adeiladu os oes modd. Dylai'r datblygwr neu'r perchennog gysylltu â'r Swyddog Rheoli Enwi a Rhifo Strydoedd gyda'r enw a gynigir ar gyfer yr annedd newydd.

| | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **Rhif Ffôn Symudol** | |
| **E-bost** | |
| **Cyfeirnod y Cais Cynllunio** | |
| **Côd post** | |

**I'ch helpu i enwi'ch eiddo, gallwch fwrw golwg ar y gofrestr o enwau lleoedd hanesyddol er mwyn cael awgrymiadau**

Map – Enwau Llefydd Hanesyddol

| | |
|---|---|
| **Enw / rhif yr eiddo newydd a awgrymir**<br>(cynigiwch o leiaf dau enw) | 1.<br>2.<br>3. |
| **A oes rhywun yn byw yn yr eiddo neu a yw'n barod i fyw ynddo?** | ☐ Oes ☐ Nac oes<br>Os **Nac oes**, a oes gennych ddyddiad pryd y rhagwelir y bydd rhywun yn byw ynddo?<br>**Dyddiad y rhagwelir y bydd rhywun yn byw yno:** |
| **Ai chi yw perchennog yr eiddo?** | ☐ Ie ☐ Na<br>Os **Na**, bydd angen cadarnhad ysgrifenedig arnom gan berchennog yr eiddo |
| **Llofnod:** | **Dyddiad:** |

Swyddog Rheoli Enwi a Rhifo Strydoedd, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, ABERAERON, SA46 0PA
Ffôn: 01545 572115
E-bost: canolfanrheolicyfeiriadau@ceredigion.gov.uk

SNN

Diolch i chi am hysbysu Cyngor Sir Ceredigion o'ch bwriad i enwi'ch cartref. Cyn cofrestru'r enw newydd, hoffem i chi fanteisio ar gyfnod seibiant 10 diwrnod a gynigiwn er mwyn rhoi cyfle i chi ystyried cyd-destun enw eich eiddo. Yn dilyn y cyfnod 10 diwrnod, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cysylltu â chi i ofyn am gadarnhad o'ch penderfyniad ynghylch enw'ch eiddo, cyn dechrau'r broses gofrestru.

Mae Ceredigion yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod y Gymraeg yn rhan annatod o fywyd bob dydd yma.

Ynghlwm â'r iaith Gymraeg mae diwylliant, hanes a hunaniaeth gyfoethog ac unigryw'r ardal leol a'i thrigolion. O ganlyniad, mae enw lle neu enw tŷ Cymraeg fel arfer yn cyfleu gwybodaeth am natur y lleoliad, am ei hanes, diwylliant yr ardal, neu'r bobl a arferai fyw yno. Gall parchu enwau a thraddodiadau Cymraeg lleol hefyd hwyluso'r broses integreiddio a chryfhau cysylltiadau cadarnhaol o fewn y gymuned.

Mae llawer o berchnogion tai newydd yng Nghymru yn cael eu hunain yn berchnogion balch ar eiddo gydag enw na allant ei ynganu na'i ddeall. Er ein bod yn deall y demtasiwn i gyfieithu neu newid yr enw i'r Saesneg, cyn gwneud eich penderfyniad terfynol, hoffem gynnig cyfle i chi ailystyried.

Yn y cyfamser, os hoffech drafod hyn ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â mi,

Yn Gywir,

S A JONES

Steffan Jones
Swyddog Rheoli Enwi a Rhifo Strydoedd

Swyddog Rheoli Enwi a Rhifo Strydoedd, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, ABERAERON, SA46 0PA
Ffôn: 01545 572115
E-bost: canolfanrheolicyfeiriadau@ceredigion.gov.uk